

AWDURDOD HEDDLU GWENT a HEDDLU GWENT

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2008 | 2009

GWNEUD GWENT YN LLE DIOGELACH - AMDDIFFYN A RHOI TAWELWCH MEDDWL I CHI

Cynnwys

2 Cyflwyniad

3 Edrych yn ôl drwy'r flwyddyn

6 Perfformiad

11 Rheoli'r arian

12 Sut i gysylltu â ni

13 Ein haddewid plismona

Cyflwyniad

Mick Giannasi
Prif Gwnstabl

Cilla Davies
Cadeirydd yr Awdurdod Heddlu

Croeso i Adroddiad Blynyddol ar y Cyd 2008-2009 ar gyfer Awdurdod Heddlu Gwent a Heddlu Gwent.

Rydym yn falch i fanteisio ar y cyfle hwn i amlygu rhai o'r prif gyflawniadau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur i Heddlu Gwent ar lefel weithredol. Mae hi hefyd wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Llu a'r Awdurdod wrth i ni baratoi ar gyfer ailstrwythuro ein gwasanaethau plismona.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut y mae Heddlu Gwent wedi perfformio yn erbyn y targedau a osodwyd yn y cynllun plismona ar gyfer 2008-2011. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o sut y mae ein hadnoddau ariannol wedi eu defnyddio yn ystod y flwyddyn.

Mae Awdurdod Heddlu Gwent a Heddlu Gwent wedi ymrwymo i wneud Gwent yn lle mwy diogel ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn a rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd gyda heddluoedd cymdogol a sefydliadau sy'n bartneriaid i ddarparu canlyniadau plismona effeithiol ar ran y cyhoedd - mae canlyniadau o'r fath yn cynnwys chwalu mentrau troseddu trefnedig difrifol a delio â materion mwy lleol sy'n peri pryder i'r trigolion.

Mae'r gwasanaeth heddlu, fel gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn wynebu cyfnod heriol yn ariannol yn ogystal â mwy o alw ar ei adnoddau. Fodd bynnag, credwn y gallwn, drwy dreulio amser yn gwrando ar drigolion mewn cyfarfodydd Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd (PACT) a digwyddiadau tebyg, ddarparu gwasanaeth heddlu sy'n diwallu anghenion pawb yng nghymunedau niferus amrywiol Gwent.

Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i gynyddu hyder y cyhoedd yn ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion sydd o fwyaf o bwys i'n cymunedau.

M Giannasi, Prif Gwnstabl C Davies OBE JP, Cadeirydd yr Awdurdod Heddlu

Edrych yn ôl drwy'r flwyddyn

Drwy gydol y flwyddyn mae nifer o ymchwiliadau wedi bod ar y gweill ledled y llu. Mewn un achos, arweiniodd arestiad gan swyddog cymdogaeth at un o'r ymchwiliadau twyll mwyaf i'w gynnal yn Nhorfaen. O ganlyniad, llwyddodd Heddlu Gwent i atal rhwydwaith o droseddwyr a oedd yn datblygu sgamiau ac yn anfon yr elw dramor. Hefyd cynhaliwyd ymchwiliad arwyddocaol i ymchwilio gweithgareddau rhwydwaith o droseddu trefnedig yn ardal Caerffili. Arestiwyd troseddwyr oedd yn rhan yn y twyll hwn o ganlyniad i ddadansoddiad gofalus ar swm mawr o ddata ariannol ac ymholiadau a gynhaliwyd ledled ardaloedd Gwent a De Cymru. Ceir crynodeb o rai enghreifftiau o'n digwyddiadau a'n cyflawniadau eraill isod mewn calendr chwarterol.

Ebrill hyd Mehefin 2008

Roedd un ar ddeg o swyddogion Heddlu Gwent ymhlith y rhai cyntaf i elwa o ddiwygiad graddfa eang ar hyfforddiant yr heddlu. O 2006, lluoedd fu â'r cyfrifoldeb o hyfforddi darpar swyddogion heddlu. Cwblhaodd 11 o swyddogion cyntaf Gwent eu cyfnod prawf yn ystod mis Mehefin 2008. Dyma'r tro cyntaf hefyd i swyddogion heddlu gymhwyso gyda chymhwyster proffesiynol, NVQ lefel 3 a 4.

Mae rhaglen cyswllt ysgolion genedlaethol yr heddlu, sydd â'i gwreiddiau yn Sir Fynwy, yn parhau i ddarparu disgyblion ledled ardal Gwent gyda chysylltiadau hollbwysig i swyddogion lleol. Bydd swyddog lleol yn ymweld â phob dosbarth ym mhob ysgol yn ei dalgylch o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o Raglen Cyswllt Ysgolion yr Heddlu Cymru Gyfan. Gan elwa o ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, addysgir tri llinyn o'r cwricwlwm craidd i ddisgyblion. Y rhain yw camddefnydd cyffuriau a sylweddau, ymddygiad cymdeithasol a diogelwch cymunedol.

Bydd Y Fenni a Brynmawr yn dod yn ardaloedd diogelach yn ystod y tymor beicio wedi i Heddlu Gwent achredu 19 marsial beicio ar gyfer rasys penodol drwy gydol y flwyddyn. Mae Heddlu Gwent wedi arwain y ffordd drwy fod y llu cyntaf yn y DU i achredu marsialiaid beicio. Caiff y marsialiaid beicio eu hyfforddi gan swyddogion presennol Heddlu Gwent. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys rheoli gwrthdaro, sut i stopio a chyfeirio cerbydau a cherddwyr yn ddiogel, cliriadau diogelwch a phrofion cymhwysedd.

Gorffennaf hyd Medi 2008

Croesawyd Mr Giannasi i'w rôl newydd fel Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, ac yntau wedi gwasanaethau yn flaenorol fel ein Dirprwy Brif Gwnstabl.

Fe wnaethom hefyd groesawu ein Dirprwy Brif Gwnstabl newydd, Mrs Carmel Napier, i Heddlu Gwent. Yn flaenorol roedd Mrs Napier wedi gwasanaethu fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol gyda Heddlu Swydd Essex.

Sefydlwyd ein Huned Diogelu'r Cyhoedd, yn dilyn argymhellion a wnaed fel rhan o adolygiad a oruchwyliwyd gan yr Awdurdod Heddlu. Mae'r Uned hon yn rheoli ein llwyth gwaith sydd ei angen i ddiogelu personau agored i niwed,

Edrych yn ôl drwy'r flwyddyn

megis dioddefwyr trais domestig ac ymosodiadau rhyw.

Cafodd yr Uned Tasgio Rheoli Galw hefyd ei sefydlu yn ystod y chwarter hwn. Nod ymchwilwyr ffôn sy'n gweithio yn yr Uned hon yw ymateb i alwadau gan y cyhoedd ar yr un diwrnod, oni bai bod y dinesydd yn gofyn fel arall yn unol â'u hanghenion. Fodd bynnag, os gwneir yr alwad wedi 21:00, bydd yr ymchwilydd yn ymateb y diwrnod canlynol. Mewn rhai achosion mae angen defnyddio adnoddau priodol i gwblhau'r dasg, megis adnabod neu gasglu tystiolaeth fforensig, ymweld â dioddefwr sydd wedi dioddef eilwaith neu i roi tawelwch meddwl.

Cynhaliodd Tîm Plismona Cymdogaeth y Bargoed batrolau ychwanegol yn ardal Pengam drwy gydol mis Awst mewn ymgais i fynd i'r afael â blaenoriaethau oedd wedi eu hamlygu fel rhan o'r broses Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd (PACT). Roedd bob un o'r tair blaenoriaeth PACT ar gyfer ward Pengam wedi canolbwyntio ar leihau anrhefn ieuenctid yn yr ardal. Meddai swyddog ward Pengam "Rydym wedi cael rhai canlyniadau cadarnhaol yn ystod y dyddiadau diweddaraf ym mis Awst. Bydd trigolion yn aml yn dweud bod anhrefn ieuenctid wedi ei gysylltu ag yfed alcohol gan yfwyr dan oed, felly rydym yn gweithio i atafaelu alcohol ac atal yr yfwyr dan oed rhag cael gafael ar alcohol yn y lle cyntaf.

Bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Mr Paul Murphy, yn ymweld â stad dai gwobrwyedig ym Mhont-y-p l i weld drosto'i hun y gwaith a wneir i leihau trosedd ac anrhefn a mynd i'r afael â materion gwrthgymdeithasol. Aeth Mr Murphy i Bontnewynydd wedi i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Torfaen ennill "Gwobr Arfer Arloesol" tîm Troseddu'r Swyddfa Gartref sy'n cydnabod y cyflawniadau a wneir drwy'r Grwpiau Cymdogaeth Ddiogelach.

Hydref hyd Rhagfyr 2008

Aliniwyd Uwchrarolygwyr yr Heddlu i'w rolau newydd ym mhob un o'r pum Uned Plismona Lleol. Parhawyd gyda'r paratoadau i arwain y ffordd ar gyfer cyflwyno 13 tîm cymdogaeth dynodedig ledled Gwent. Ers 1 Ebrill 2009, mae pob un o'r pum Awdurdod lleol o fewn ardal Heddlu Gwent wedi cael ei wasanaethu gan Uned Plismona Lleol a arweinir gan Uwcharolygydd yr Heddlu.

Lansiwyd ein haddewid plismona. Mae'n nodi'n glir iawn y math o wasanaeth y byddwn yn ei ddarparu i bobl Gwent.

Yn ystod y chwarter hwn y daeth "cudd-wybodaeth 24 awr" ar gael ar draws ardal y llu.

Fe wnaeth Tîm Plismona Cymdogaeth Alway ymateb i bryderon y gymuned yngl n â delio cyffuriau yn yr ardal. Galwyd swyddogion arbenigol i mewn i chwilio wyth gwahanol eiddo ar yr un pryd, gan dargedu pobl a amheuwyd o fod â rhan mewn delio cyffuriau yn yr ardal. Canlyniad y chwiliadau oedd atafaelu cyffuriau a £1,000 mewn arian parod, ac arestiwyd pedwar person am amrywiaeth o droseddau cyffuriau.

Edrych yn ôl drwy'r flwyddyn

Ionawr hyd Mawrth 2009

Yn ystod y chwarter hwn y daeth rôl "comander arian" gweithredol ar gael 24 awr y dydd ar draws ardal y llu. O bryd i'w gilydd bydd digwyddiadau critigol yn digwydd sy'n gofyn am gydlynu niferoedd mawr o'n staff er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd. Cynhelir rôl "comander arian" gan gr p bychan o uwch swyddogion ar sail 24 awr. Mae'n sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn gyson i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd.

Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cadw 55 o bobl yn y ddalfa a chyflwyno cannoedd o ddirwyon erbyn diwedd eu blwyddyn gyntaf yn plismona bysiau Casnewydd. Dechreuodd y tîm o bedwar swyddog batrolio'r bysiau ym mis Mawrth 2008 wedi i bolisi ac ariannu ar y cyd gael ei gytuno rhwng Heddlu Gwent a Thrafnidiaeth Casnewydd.

Roedd paratoadau terfynol yn cael eu gwneud ar draws y Llu i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r strwythur plismona newydd ar 1 Ebrill 2009.

Perfformiad

Bob blwyddyn bydd Awdurdod Heddlu Gwent a Heddlu Gwent yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau a fydd yn llywio'r Llu yn ei weithgareddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r Awdurdod a'r Llu wedi cytuno ar rai blaenoriaethau ar y cyd gyda sefydliadau partner ledled Gwent ac maent wedi cytuno ar rai blaenoriaethau ar y cyd gyda heddluoedd eraill, yn arbennig yng Nghymru.

Mae'r llu wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd allweddol ac mae wedi gwneud gwelliannau cyson a chynyddol yn erbyn ein dangosyddion gweithredol, trefniadol ac ymwneud wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod Heddlu yn fodlon iawn gyda'r cynnydd a wnaed gan y llu i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i gymunedau Gwent. Fe wnaeth perfformiadau cryf yn y rhan fwyaf o feysydd sicrhau bod y targedau yn cael eu cyrraedd mewn cyfnod o newid mawr iawn yn y llu. Rhaid canmol y Prif Gwnstabl a'i swyddogion a'i staff am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad mewn ymdrechu i wneud Gwent yn lle diogelach drwy amddiffyn a rhoi tawelwch meddwl i'n cymunedau.

Un o'r ffyrdd y caiff perfformiad ei fesur yw drwy weithgaredd archwilio ac arolygu a gynhelir gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM). Bob blwyddyn bydd ACEM yn cynnal archwiliadau ac arolygiadau ar draws sawl maes o weithgareddau plismona. Mae'r arolygiadau hyn yn asesu gallu'r llu i ddarparu safonau defnyddiol o ddarpariaeth gwasanaeth ac yn gwneud argymhellion, lle bo hynny'n briodol, sy'n arwain at welliannau. Aseswyd Heddlu Gwent fel "Bodloni'r Safon" ym meysydd 'Troseddau Mawr", "Plismona Cymdogaeth" a "Phlismona sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd". Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer "Trefn Gyhoeddus", "Rheoli Digwyddiadau Critigol" a "Argyfyngau Sifil" wedi eu graddio ar lefel gweithgaredd yn ôl system sgorio ddiwygiedig sef "Coch", "Ambr" a "Gwyrdd". Mae hyn yn gwneud cyfansymio graddau unigol i un radd ar gyfer y maes yn amhriodol.

Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad, yn ystod tymor yr Hydref 2008, bod y sefydliad wedi perfformio yn dda yn ystod y flwyddyn ariannol 2007-2008 ar draws y pum thema ymarfer "Defnydd yr Heddlu o Adnoddau", sef adrodd ariannol, rheolaeth ariannol, sefyllfa ariannol, rheolaeth fewnol a gwerth am arian.

Perfformiad

Canolbwyntio ar y Dinesydd

Mae Cynllun Plismona Gwent 2008-2011 yn gosod 9 targed yn y maes hwn. Mae bodlonrwydd dioddefwyr wedi dangos gwelliant ar draws pob maes targed rhwng 2007-2008 a 2008-2009. Cyrhaeddwyd targedau ar gyfer cyfraddau bodlonrwydd o ran cael eu diweddaru am gynnydd ond roedd cyfraddau bodlonrwydd yn brin o'r targedau o ran y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir. Mae bodlonrwydd ymhlith galwyr 999 wedi cyrraedd lefel ardderchog o 96.9% ac mae bodlonrwydd ymhlith galwyr di-argyfwng wedi cyrraedd 94.8%. O'r 3504 gwiriad LISTEN a gwblhawyd, dywedodd 91% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniasant. Er y llwyddiannau hyn, roedd canlyniadau 2007-2008 Arolwg Trosedd Prydain ar gyfer dangosyddion bodlonrwydd y cyhoedd yn weddol siomedig.

Targedau ar gyfer y flwyddyn 2008-2009	Canlyniad 2007-2008	Canlyniad 2008-2009
60% o'r bobl sy'n dioddef byrgleriaeth ddomestig, trosedd treisgar, trosedd cerbydau a gwrthdrawiadau ar y ffordd yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran cael gwybod am unrhyw gynnydd.	55.1%	65.6% (Arolwg Gwent)
85% o'r bobl sy'n dioddef byrgleriaeth ddomestig, troseddau teisgar, troseddau cerbydau a gwrthdrawiadau ar y ffordd yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran y gwasanaeth cyfan a ddarperir.	79.4%	82.5% (Arolwg Gwent)
52% y bobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran rhoi gwybod iddynt am unrhyw gynnydd.	57.1%	52.1% (Arolwg Gwent)
77% y bobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran darparu'r gwasanaeth cyffredinol.	72.3%	74.5% (Arolwg Gwent)
65% y bobl yn cytuno bod yr heddlu yn eu hardal yn delio â'r pethau sydd o bwys i bobl yn eu cymuned.	63.5%	49.5% (Arolwg Gwent)
70% y bobl yn credu bod Heddlu Gwent yn gwneud gwaith da.	66%	55% (Arolwg Gwent)
90% y galwyr 999 yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran gwasanaeth cyfan a ddarperir.	93.5%	96.9% (Arolwg Gwent)
90% y galwyr heb fod yn rhai argyfwng yn fodlon â pherfformiad yr heddlu o ran y gwasanaeth cyfan a ddarperir.	95.3%	94.8% (Arolwg Gwent)
Gwreiddio ac adolygu proses gwirio ansawdd Listen i wella gwasanaeth cwsmeriaid	Staff wedi'u hyfforddi. Gwiriadau ansawdd wedi dechrau	91.0% 3054 yn fodlon gyda'r heddlu

Perfformiad

Canolbwyntio ar leihau troseddu

Mae Cynllun Plismona Gwent 2008-2011 yn gosod 11 target yn y maes hwn. Rydym yn falch i adrodd bod ein cyfraddau datrys wedi gwella ar draws pob targed. Fe welwyd cynnydd bychan yn nifer y troseddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae lefel cyffredinol troseddu wedi gostwng gan 20% ers mis Ebrill 2005.

Targedau ar gyfer y flwyddyn 2008-2009	Canlyniad 2007-2008	Canlyniad 2008-2009
Sicrhau lleihad pellach yn lefelau troseddau yn gyffredinol o gymharu â llinell sylfaen 2007-2008. (h.y. sicrhau llai na 48472 o droseddau).	48472	49210
Lleihau nifer y troseddau treisgar difrifol gan 5% (h.y. sicrhau llai na 563 o droseddau treisgar difrifol).	D/G	583
Lleihau nifer yr ymosodiadau (Adran 47) gan 5% (h.y. sicrhau llai na 5303 o ymosodiadau adran 47)	D/G	5161
Sicrhau cyfradd datrysiadau a gosbir yn gyffredinol o 30%	30.3%	30.6%
Cynyddu datrysiadau a gosbir ar gyfer troseddau treisgar difrifol gan 5% i 46.8%	D/G	52.0%
Cynyddu datrysiadau a gosbir ar gyfer ymosodiadau (Adran 47) gan 5i 47.7%	D/G	46.5%
Cynyddu datrysiadau a gosbir ar gyfer troseddau trais rhywiol gan 5% i 25.5%	D/G	35.9%
Cynyddu lefel gorchmynion fforffedu asedau i £1,000,000	£813.5K	£621.8K

Perfformiad

Mae prydlondeb cyflwyno ffeiliau o fewn ein proses paratoi ffeiliau newydd wedi gwella drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft cyflwynwyd, 75.4% o'r holl ffeiliau a styriwyd a thystiolaethol i'r unedau cadwraeth o fewn y terfynau amser, a chyflwynwyd 95.5% o ffeiliau troseddwyr ifanc parhaus (rhai a styriwyd a thystiolaethol) i'r Adran Cyfiawnder Troseddol o fewn y terfynau amser. Bydd cynnydd pellach yn lefel y staffio yn yr Unedau Cefnogaeth Ymchwiliol yn ystod 2009 yn arwain at ragor o welliannau yn ansawdd a phrydlondeb cyflwyno ffeiliau.

Targedau ar gyfer y flwyddyn 2008-2009 (parhad)	Canlyniad 2007-2008	Canlyniad 2008-2009
Caiff 90% o ffeiliau eu derbyn o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt: Ffeiliau a styriwyd a thystiolaethol i unedau'r ddalfa o fewn 24 awr i'r cyhuddiad; ffeiliau llawn i'r Adran Cyfiawnder Troseddol o fewn tair wythnos i'r cyhuddiad.	D/G	75.4% 86.2%
100% o ffeiliau troseddwyr ifanc parhaus i'w derbyn o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt: ffeiliau a styriwyd a thystiolaethol i unedau'r ddalfa o fewn 24 awr i'r cyhuddiad; ffeiliau llawn i'r Adran Cyfiawnder Troseddol o fewn tair wythnos i'r cyhuddiad.	D/G	87.8% 95.5%
100% o ffeiliau troseddwyr ifanc cyson a blaenoriaeth i'w derbyn o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt:ffeiliau a styriwyd a thystiolaethol i unedau'r ddalfa o fewn 24 awr i'r cyhuddiad; ffeiliau llawn i'r Adran Cyfiawnder Troseddol o fewn tair wythnos i'r cyhuddiad.	D/G	93.3% 79.3%

Perfformiad

Canolbwyntio ar adnoddau

Mae perfformiad o ran cyfraddau presenoldeb ar gyfer Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn dda ac yn agos iawn i'r targed 95% a osodwyd. Roedd cyfraddau presenoldeb Swyddogion Heddlu yn 94.8% a chyfraddau presenoldeb Staff yr Heddlu yn 95.1%. Mae'r llu yn parhau i gadw ei wobr "Aur" yn y Safon Iechyd Gorfforaethol.

Mae'r Targed Gwella Effeithlonrwydd Cenedlaethol sydd i'w gyflawni erbyn mis Mawrth 2011 yn cyfateb i 9.3% (£11.4 miliwn). Yn ystod 2008-2009, cyflawnwyd 0.2% o arbedion effeithlonrwydd rhyddhau arian. Fodd bynnag, mae disgwyl i weithrediad argymhellion Adolygiad Aros ar y Blaen drwy gydol 2009-2010 wireddu cyfran uwch o'r arbedion hyn yn ystod 2010-2011.

Targedau ar gyfer y flwyddyn 2008-2009	Canlyniad 2007-2008	Canlyniad 2008-2009
Sicrhau'r mwyaf o arian posibl trwy arbedion effeithlonrwydd yn 2008-2009 i gefnogi targed tair blynedd o 9.3% (£11.4 miliwn) erbyn 2010-2011	N/A	75.4% 86.2%
Cyflawni cyfradd presenoldeb o 95% ar gyfer swyddogion heddlu a staff yr heddlu.		Swyddogion: 94.8% Staff: 95.1%
Swyddogion Heddlu Staff yr Heddlu	4.3% salwch 4.7% salwch	5.2% salwch 4.9% salwch
To maintain our "Gold Award" Corporate Health Standard as assessed by the National Assembly of Wales	DYFARNIAD AUR	DYFARNIAD AUR

Rheoli'r arian

Mae Awdurdod Heddlu Gwent yn gorff annibynnol o bobl leol gyda chyfrifoldeb am sicrhau fod pobl Gwent yn derbyn gwasanaeth effeithlon ac effeithiol gan Heddlu Gwent. Un o ddyletswyddau'r Awdurdod Heddlu yw dal cyllideb yr heddlu a chytuno ar ddyraniad adnoddau

Mae cost plismona Gwent a chrynodebau o'r adnoddau ariannu wedi eu nodi isod.

Cost Plismona Gwent	2008 - 2009 £000	2009 - 2010 £000	Cyllideb Cyfalaf	2008 - 2009 £000	2009 - 2010 £000
Cyllideb Refeniw Gros	130,193	132,601			
Llai Incwm	(7,098)	(7,301)	Cyllideb Cyfalaf	3,262	3,720
Gwariant Refeniw Net	123,095	125,300			
Sut y Telir Amdano	**2008 - 2009 £000**	**2009 - 2010 £000**	**Sut y Telir Amdano**	**2008 - 2009 £000**	**2009 - 2010 £000**
Grant Heddlu Cyffredinol (Swyddfa Gartref)	46,070	47,104	Grant Cyfalaf	1,382	1,382
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cynulliad Cymru)	18,417	18,961	Benthyca	774	774
Trethi Annomestig Cenedlaethol (Llywodraeth Cynulliad Cymru)	16,117	16,554	Cyfraniad o'r Cronfeydd wrth Gefn	1,106	1,564
Praesept y Dreth Gyngor	33,697	35,231			
Grantiau Penodol (Swyddfa Gartref)	7,342	7,450			
Cyfraniad gan Gronfeydd Wrth Gefn	1,452	0			
Cyfanswm Refeniw	123,095	125,300	**Cyfanswm Cyfalaf**	3,262	3,720

Sut i gysylltu â ni

Mewn argyfwng ffoniwch 999 (999 neu 112 os yn defnyddio ffôn symudol)
Mae'n sefyllfa argyfwng os oes bygythiad i fywyd, os oes perygl o anaf difrifol; neu os ydych yn amau bod trosedd yn cael ei chyflawni neu yn mynd i gael ei chyflawni. Rydym wedi cyflwyno gwasanaeth tecstio SMS i'r gymuned fyddar i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Gellir riportio achosion nad sy'n argyfwng drwy ffonio 101
Mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno rhif ffôn di-argyfwng. Mae'r mathau o ddigwyddiadau y gellir eu riportio yn defnyddio'r rhif 101 newydd yn cynnwys fandaliaeth, graffiti, brawychu ac aflonyddu, ymddygiad meddw neu stwrllyd, ymddygiad cysylltiedig â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gorsafoedd heddlu
Mae gorsafoedd Y Coed-duon, Caerffili, Cwmbrân, Glynebwy a Chasnewydd ar agor 24 awr y dydd. Mae oriau agor y gorsafoedd eraill wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan www.gwent.police.uk ac yn y Crynodebau Plismona Lleol a ddosberthir i gartrefi yn ystod misoedd yr haf.

Electronig
Efallai y cewch hyd i'r holl wybodaeth yr ydych ei hangen ar ein gwefannau www.gwent.police.uk a www.gwentpa.police.uk

Yn ysgrifenedig
Gallwch ysgrifennu at naill ai Brif Gwnstabl Heddlu Gwent neu Brif Weithredwr Awdurdod Heddlu Gwent yn:

Pencadlys Heddlu Gwent,
Heol Tyrpeg,
Croesyceiliog,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 2XJ.

Rhifau cyswllt defnyddiol eraill
Gellir cysylltu ag Awdurdod Heddlu Gwent ar 01633 642200.

Mae gan Heddlu Gwent linell gymorth Minicom ar gyfer pobl gyda nam ar y lleferydd a/neu glyw. Ffoniwch 01633 877574.

Os ydych eisiau rhoi gwybodaeth yn ddienw, gallwch hefyd gysylltu â Taclo'r Taclau ar 0800 555 111.

EIN HADDEWID PLISMONA

Byddwn yn eich trin yn deg bob amser.

Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i gysylltu â, a gweithio gyda, Timau Plismona Cymdogaeth.

Bydd y timau hynny yn gweithio'n weledol i chi am 80 y cant o'u hamser.

Bydd y Timau Cymdogaeth yn cysylltu'n ôl â chi o fewn 24 awr.
Os bydd angen, byddwn yn darparu ymateb mwy manwl cyn gynted â phosibl.

Caiff galwadau 999 eu hateb o fewn 10 eiliad, a byddwn yn cyrraedd achosion argyfwng cyn gynted ag sy'n ddiogel bosibl.
Ein nod yw eich cyrraedd o fewn 15 munud mewn canol trefi a dinasoedd, ac 20 munud mewn ardaloedd gwledig.

Mewn achosion eraill, os byddwch ein hangen, anelwn i fod yno o fewn awr ar gyfer blaenoriaethau cymdogaeth (gallwch weld beth ydynt ar ein gwefan). Os byddai'n well gennych chi fe drefnwn apwyntiad i chi o fewn 48 awr i'ch galwad, neu byddwn yn barod i roi cyngor, ateb cwestiynau neu eich cysylltu â rhywun all helpu.

Rydym eisiau cyfarfod â phobl yn eich cymdogaeth o leiaf unwaith y mis - naill ai mewn cyfarfodydd PACT (Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd) ffurfiol, a gaiff eu hysbysebu, neu mae croeso i chi ein gwahodd i'ch grŵp. Fe ddown i grwpiau fel mam a'i phlentyn, pensiynwyr, clybiau bowlio, clybiau ieuenctid neu hyd yn oed i'r archfarchnad leol.

Byddwn yn darparu diweddariadau misol am faterion lleol.

Os ydych wedi dioddef trais ac am i ni ymweld â chi, fe wnawn. Byddwn yn cytuno ar ba mor aml yr ydych eisiau gwybodaeth ynglŷn â datblygiad yr achos – gallai hyn fod bob mis.

Os nad ydych yn fodlon gyda'n gwasanaeth, fe weithiwn gyda chi i ddatrys y sefyllfa.

Design and Production
Gwent Police Corporate Communications Department

596_01_Joint Annual Report_CYM